iii. Gwybodaeth a ddarperir gan eraill
    - Pryderon neu wybodaeth gan berthnasau, aelodau staff, gweithwyr proffesiynol, rheolyddion eraill neu Aelodau'r cyhoedd
    - Atgyfeiriadau diogelu awdurdodau lleol
        - Pan fydd gwybodaeth yn dod i law sy'n ymwneud â materion y tu hwnt i gwmpas swyddogaethau AGC, rhoddir y wybodaeth honno i gorff mwy addas.

b. Paratoi a chynllunio Arolygiadau
   Caiff gwybodaeth ei chasglu a'i hystyried i bennu'r math o arolygiad a pha mor ami y dylid ei gynnal; a nodi'r themâu y dylid canolbwyntio arnynt.
c. Ymweliad arolygu
   Cofnodwch yr hyn a welsom, yr hyn a ddywedwyd wrthym a'r hyn a ddarllenasom. Rhoddir adborth i'r darparwr y gwasanaeth.
   i. Os gwelir bod diffygion, gallai hyn arwain at y canlynol:
      - Argymhellion ar gyfer gwella
      - Cyhoeddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio
      - Camau gorfodi eraill fel hysbysiadau gwella a chosb
      - Dilyniant/arolygiad
   ii. Diogelu
      Os gwelwn neu os rhoddir gwybod i ni am bryderon diogelu yn ystod yr arolygiad, byddwn yn sôn am hyn y darparwr cyn gynted â phosibl er mwyn iddo gymryd camau gwiethredu . Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i ni wneud atgyfeiriadau at asiantaethau eraill fel rhan o'n dyletswydd statudol i ddiogelu pobl.
d. Adroddiad arolwg
   Caiff canfyddiadau'r arolygiad eu cyhoeddi

## Pryd y caiff gwasanaethau eu harolygu?

4.11. Mae Mesur 2010 yn caniatáu i ni arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig ar unrhyw amser ac ar unrhyw ddiwrnod. Nodir amlder yr arolygiadau ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau yn adran 6.

4.12. Ac eithrio arolygiadau ar y cyd a drefnir gydag Estyn (gweler paragraff 5.8), mae pob arolygiad a gynhelir gennym yn arolygiad dirybudd. Fodd bynnag, ar gyfer rhai darparwyr, mae'n bosibl y byddwn yn rhoi cyfnod rhybudd byr lle y bo'n briodol gwneud hynny, er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau gwarchod plant a chwarae mynediad agored, byddwn fel arfer yn cysylltu â'r darparwr yn ystod yr wythnos cyn rydym yn bwriadu cynnal arolygiad er mwyn cadarnhau'r amseroedd gweithredu a sicrhau bod y gwarchodwr plant ar gael.

